
# Adolygiad Diogelu Unedig Sengl

Dysgu o'r Gorffennol i wneud y Dyfodol yn fwy Diogel

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## BRIFFIAD 7 MUNUD

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau, anfonwch e-bost at: SUSRWales@llyw.cymru




### CEFNDIR

Creu proses adolygu unigol lle mae angen ymagwedd amlasiantaeth, gan gynnwys y prosesau adolygu canlynol: Adolygiad Ymarfer Oedolion; Adolygiad Ymarfer Plant; Adolygiad Dynladdiad Domestig; Adolygiad Dynladdiad Iechyd Meddwl; Adolygiad Dynladdiad Arfau Bygythiol. Defnyddir yr adroddiad terfynol i hysbysu arfer proffesiynol drwy Ystorfa Ddiogelu Cymru.

### Y CAMAU NESAF

- Bydd y cyfnod ymgynghori ffurfiol yn para 14 wythnos, gan orffen ar 9 Mehefin 2023.
- Bydd y tîm ADUS yn cynnal grwpiau ffocws ar-lein ac wyneb yn wyneb yn ystod y cyfnod hwn. Dilynwch y dolenni isod er mwyn cofrestru ar gyfer y digwyddiadau wyneb yn wyneb:
- 28 Mawrth 2023 o 10:00-11:30 ym Mharc Cathays, Caerdydd (Grŵp Ffocws Ymgynghoriad ADUS | Eventbrite)
- 19 Ebrill 2023 o 14:00-15:30 yng Ngogledd Cymru, lleoliad i'w gadarnhau (Grŵp Ffocws Ymgynghoriad ADUS, Gogledd Cymru | Eventbrite)
- 26 Ebrill 2023 o 10:00-11:30 ym Mhencadlys Heddlu Dyfed-Powys, Caerfyrddin (Grŵp Ffocws Ymgynghoriad ADUS, Caerfyrddin | Eventbrite)
- Cynhelir y Grŵp Cyfeirio Dioddefwyr a Theuluoedd agoriadol ar 30 Mawrth 2023. Cysylltwch os hoffech gymryd rhan.

### CYNNYDD HYD YN HYN

- Mae cwmni *Fradd Consultancy* wedi creu cynllun cyfathrebu ar gyfer y cyfnod ymgynghori. Mae hyn yn cynnwys grwpiau ffocws wyneb yn wyneb ac ar-lein. Cysylltwch os oes gennych unrhyw awgrymiadau o ran grwpiau neu fyrddau y gallem gynnal sesiwn ymgynghori gyda nhw.

### DIWEDDARIAD AR Y GANOLFAN GYDLYNU ADUU

- Mae cyfarfod wedi'i drefnu gydag arweinwyr Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a Rheolwyr Busnes Byrddau Diogelu Rhanbarthol er mwyn cytuno sut y bydd y Rhestr Adolygwyr a Chadeiryddion Cymeradwy'n gweithio.
- Mae'r Ganolfan Gydlynu'n paratoi i hwyluso'r broses ymgynghori ffurfiol.

### GRŴP CYFEIRIO RHANDDEILIAID

- Os ydych chi dal eisiau bod yn rhan o'r grŵp cyfeirio rhanddeiliaid a chyfrannu at weithredu'r broses ADUS, cysylltwch os gwelwch chi'n dda. Mae croeso ichi wahodd unrhyw gydweithwyr a allai gynorthwyo â gwaith y grŵp hwn.

### DIWEDDARIAD AR YSTORFA DDIOGELU CYMRU

- Bydd profi YDdC yn cychwyn ddechrau Mawrth. Bydd hyn yn gyfle i brofi swyddogaethau allweddol yr Ystorfa, yn ogystal â rhoi adborth ar y canllawiau a defnyddioldeb y system.

### YMGYNGHORIAD FFURFIOL AR YR ADUS

- Yn dilyn y drafodaeth Bord Gron gyda rhanddeiliaid allweddol, mae diwygiadau terfynol i'r canllawiau statudol bellach wedi'u hychwanegu.
- Anfonwyd y canllawiau at holl aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Materion Cyfreithiol a Llywodraethu a'r Grŵp Llywio ar 14 Chwefror. Cynigiodd yr aelodau adborth a chyngor ar y broses ymgynghori, gan gadarnhau bod y canllawiau'n barod i fynd allan ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol.
- Bydd yr ymgynghoriad yn mynd yn fyw ar 6 Mawrth 2023. Defnyddiwch y ddolen ganlynol i weld y ddogfen ymgynghori: https://www.llyw.cymru/canllawiau-statudol-adolygu-diogelu-unedig-unigol-aduu

**This document is also available in English**